# Agenda - Y Pwyllgor Cyllid

Lleoliad:

**Fideogynhadledd drwy Zoom**

Dyddiad: Dydd Iau, 20 Hydref 2022

Amser: 09.30

I gael rhagor o wybodaeth cysylltwch a:

**Owain Roberts**

Clerc y Pwyllgor

0300 200 6388

SeneddCyllid@senedd.cymru

**Yn ei gyfarfod ar 12 Hydref, cytunodd y Pwyllgor ar gynnig o dan Reol Sefydlog 17.42 (ix) i wahardd y cyhoedd o'r cyfarfod a gynhelir heddiw.**

**Cofrestru (09.15-09.30)**

**1 Cyflwyniad, ymddiheuriadau, dirprwyon a datgan buddiannau**

(09.30)

**2 Craffu ar Gyllideb Ddrafft Comisiwn y Senedd ar gyfer 2023-24: Trafod yr adroddiad drafft**

(09.30-10.00) (Tudalennau 1 - 32)

**Dogfennau ategol**:

FIN(6)-21-22 P1 - Adroddiad drafft

FIN(6)-21-22 P2 - Llythyr gan Gomisiwn y Senedd: Gwybodaeth ychwanegol yn dilyn y sesiwn dystiolaeth ar 5 Hydref 2022 - 14 Hydref 2022

**3 Trafod Rheoliadau Treth Trafodiadau Tir (Bandiau Treth a Chyfraddau Treth) (Cymru) (Diwygio) 2022**

(10.00-10.15) (Tudalennau 33 - 35)

**Dogfennau ategol**:

Rheoliadau Treth Trafodiadau Tir (Bandiau Treth a Chyfraddau Treth) (Cymru) (Diwygio) 2022 (PDF, 55KB)

Memorandwm Esboniadol (PDF, 162KB)

Nodyn Cyngor Cyfreithiol

# Eitem 2

Mae cyfyngiadau ar y ddogfen hon

Senedd Cymru
**Comisiwn y Senedd**
—
Welsh Parliament
**Senedd Commission**

Peredur Owen Griffiths AS
Cadeirydd y Pwyllgor Cyllid
Senedd Cymru
Tŷ Hywel
Bae Caerdydd
CF99 1SN

14 Hydref 2022

Annwyl Peredur

Yn dilyn ein hymddangosiad gerbron eich Pwyllgor ar 5 Hydref, rwy'n ysgrifennu atoch er mwyn rhoi rhagor o wybodaeth i chi a fydd yn ategu'r atebion a roddwyd gennym yn ystod y cyfarfod. Mae'r wybodaeth o dan sylw wedi'i nodi yn yr atodiad.

Hoffem ddiolch i'r Pwyllgor am ei waith craffu. Mae'r Comisiwn bob amser yn ceisio gweithredu mewn ffordd agored, dryloyw a chlir. Felly, os oes unrhyw beth arall y gallwn ei roi ichi i gynorthwyo trafodaethau'r Pwyllgor, mae croeso ichi roi gwybod imi.

Yn gywir

**Ken Skates AS**

copi at Gomisiynwyr y Senedd, Manon Antoniazzi, Nia Morgan

Croesewir gohebiaeth yn Gymraeg neu Saesneg / We welcome correspondence in Welsh or English

**Senedd Cymru**
Bae Caerdydd, Caerdydd, CF99 1SN
Sulafa.Thomas@senedd.cymru
0300 200 6227

**Welsh Parliament**
Cardiff Bay, Cardiff, CF99 1SN
Sulafa.Thomas@senedd.wales
0300 200 6227

**Comisiwn y Senedd: Gwybodaeth ychwanegol yn dilyn ein hymddangosiad gerbron y Pwyllgor Cyllid ar 5 Hydref 2022**

1. ***Nodyn ar y prosiectau a nodwyd ar gyfer 2023-24 sydd wedi'u cynnwys yng nghronfa prosiect y Comisiwn.***

Mae gwariant Cronfa Prosiect y Comisiwn ar gyfer 2023-24 wedi'i nodi yn Nhabl 10 yng nghyllideb ddrafft y Comisiwn:

***Tabl 10: Prosiectau â blaenoriaeth ar gyfer 2023-24 (gan gynnwys cyfalaf)***

| | 2023-24 £000 |
|---|---|
| Gweithgareddau ymgysylltu ac allgymorth | £200 |
| Gwariant arfaethedig y tîm Rheoli Cyfleusterau ac Ystadau | £600 |
| Gwariant arfaethedig y tîm TGCh | £400 |
| Ffyrdd o weithio yn y dyfodol | £300 |
| **Cyfanswm** | **£1,500** |

Nid yw'n gwbl hysbys eto sut y bydd y gyllideb a glustnodwyd fel 'Gweithgareddau ymgysylltu ac allgymorth' yn cael ei wario gan nad yw'r Comisiwn wedi penderfynu eto ar ei weithgareddau ymgysylltu penodol ar gyfer 2023-24. Er enghraifft, gallai'r gwariant yn 2023-24 gael ei ddylanwadu gan weithgareddau sy'n ymwneud â diwygio'r Senedd. Mae hyn hefyd yn wir am wariant sydd wedi'i glustnodi fel "Ffyrdd o weithio yn y dyfodol", a fydd yn cael ei ddylanwadu gan argymhellion bwrdd y rhaglen Ffyrdd o Weithio.
Mae gan feysydd gwasanaeth Rheoli Cyfleusterau ac Ystadau (EFM) a Thechnoleg Gwybodaeth a Chyfathrebu (TGCh) y Comisiwn eu blaenraglen waith fanwl eu hunain.

Mae'r prosiectau a nodwyd ar hyn o bryd ar gyfer buddsoddi yn 2023-24 ym mlaenraglen waith Rheoli Ystadau a Chyfleusterau yn cynnwys gosodiadau Solar Ffotofoltäig, gosod system reoli Adeiladau'r Senedd newydd a gosod rhagor o oleuadau LED.

Mae'r prosiectau a nodwyd ar hyn o bryd ar gyfer buddsoddi yn 2023-24 yn y flaenraglen waith ar gyfer TGCh yn cynnwys gwelliannau i seilwaith y rhwydwaith, uwchraddio'r seilwaith darlledu ac uwchraddio camerâu ystafelloedd Pwyllgora'r Senedd.

Bydd allbynnau a chanlyniadau gwariant y Gronfa Prosiect ar brosiectau â blaenoriaeth bob amser yn cael eu cysoni â blaenoriaethau a nodau strategol y Comisiwn a'r Cynllun Cyflawni Corfforaethol.

2. ***Canllaw i Aelodau o'r Senedd ynghylch y system wresogi ac awyru yn swyddfeydd Tŷ Hywel.***

Mae'r dudalen we a'r dogfennau a ganlyn ar gael ar wefan y Senedd:

***Ynni a Thymheredd Ystafelloedd - tudalen we***
***Canllaw i reoli tymheredd ystafell***
***Sut i ddefnyddio eich rheolydd tymheredd ystafell***


3. ***Nodyn ar y blaenoriaethau lefel uchaf o fewn strategaeth y Comisiwn ar gyfer lleihau ei gostau ynni a'i ôl troed carbon.***

Cyhoeddwyd **Strategaeth Carbon Niwtral** y Comisiwn ym mis Chwefror 2021.

Dyma grynodeb o'r blaenoriaethau lefel uchaf, ynghyd â tharged arbed carbon pob menter:

| TARGED TYMOR BYR: (2021-2023) | | TARGED TYMOR CANOLIG: (2023-2026) | |
|---|---|---|---|
| Newid ymddygiad a chynnal a chadw da | 100 | Ailwampio unedau trin aer | 42 |
| Gwelliannau BMS (tri adeilad) | 59 | Cysylltu â rhwydwaith gwresogi ardal | 132 |
| Monitro – meddalwedd a mesuryddion ychwanegol | 52 | Symud Tŷ Hywel yn ôl i awyru goddefol | 97 |
| Goleuadau LED: parhau i'w hamnewid ac adolygu'r rheolaethau | 30 | Gosod PV solar (Senedd a Thŷ Hywel) | 60 |
| = ARBED 241 O DUNELLI O GARBON Y FLWYDDYN | | = ARBED 331 O DUNELLI O GARBON Y FLWYDDYN | |

Mae'r blaenoriaethau tymor hwy yn cynnwys:





4. ***Nodyn ar gymhwystra'r Comisiwn ar gyfer menter buddsoddi i arbed Llywodraeth Cymru.***

Mae menter buddsoddi i arbed Llywodraeth Cymru a chynlluniau eraill fel y **Gronfa Twf Gwyrdd** yn fenthyciadau i sefydliadau sydd wedyn yn ad-daladwy. Nid yw'r Comisiwn yn gallu cymryd rhan yn y mentrau hyn gan fod ei bwerau i fenthyg arian yn gyfyngedig iawn ac nid ydynt yn gymwys i'r gronfa (gweler paragraff 4(5) a (6) o Atodlen 2 i Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006).

5. ***Nodyn ar strwythur staff y Comisiwn.***

Mae paragraff 3(4)(b) o Atodlen 2 i Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 yn nodi bod rhaid i Gomisiwn y Senedd sicrhau bod telerau ac amodau cyflogaeth staff y Senedd yn cyd-fynd yn fras â thelerau ac amodau staff Llywodraeth Cymru.

Mae'r cyfrannau o staff y Comisiwn ar hyn o bryd, wedi'u gosod yn erbyn y strwythur tâl a graddau, wedi'u nodi isod.




Mae trosolwg o Strwythur Llywodraethu'r Comisiwn ar gael ar dudalen 24 **Adroddiad Blynyddol a Chyfrifon 2021-22**. Mae'n rhoi gwybodaeth am gyrff ymgynghorol y Comisiwn a phob un o'r meysydd gwasanaeth o fewn y dair gyfarwyddiaeth.

Mae cyfyngiadau ar y ddogfen hon